Gweithgaredd Gŵyl Dewin a Doti

Gŵyl Dewin a Doti Ddigidol 2020

Gwneud wyneb ffrind

Beth am iti greu llun o wyneb dy ffrind gan ddefnyddio toes. Byddi angen 1 cwpan o halen a 3 cwpan o flawd a chymysgu'r cyfan gydag 1 cwpan o ddŵr oer (gallwch haneru'r cynhwysion os nad ydych angen cymaint o does – neu os yw blawd a halen yn brin!) Yna rholia fo a gwneud llun o dy ffrind gorau. Cofia roi llygaid, clustiau, trwyn a cheg i dy ffrind a beth am ddefnyddio gwasgwr garlleg i greu gwallt? Yna gofynna i oedolyn goginio'r toes mewn ffwrn isel am hir nes bydd y toes wedi'i sychu. Ar ôl iddo oeri gelli ei beintio gyda phaent (PVA fyddai'n gweithio orau)

Yna gofynna i oedolyn dynnu llun ohonat gyda wyneb dy ffrind a'i bostio ar facebook/MudiadMeithrin neu trydar @MudiadMeithrin a defnyddio #GwylDewinaDoti2020

Create your friend's face out of dough using 1 cup salt, 3 cups flour and mix with 1 cup cold water (half everything if you don't need so much dough). It may be baked at a low temperature until the dough had dried then painted when cold with PVA paint.